

# Plant ag Anabledd Sy'n Gymwys i gael Cymorth

## Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu a oes gan blentyn anghenion sy'n galw am ofal a chymorth. Tybir bod angen gofal a chymorth ar blentyn anabl yn ychwanegol at y gofal a'r cymorth a ddarperir gan deulu'r plentyn, neu yn ei le. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i awdurdod lleol asesu anghenion plentyn anabl.

Bydd y meini prawf i'r Tîm Plant Anabl ganfod y trothwy mewn perthynas â phlentyn ag anabledd, yn cael eu derbyn ar y sail bod angen asesiad gofal cymdeithasol arbenigol ar y plentyn.

Bydd y Tîm Plant Anabl yn cynnig asesiad gofal cymdeithasol arbenigol os oes gan y plentyn yr anghenion cymhleth canlynol-

- Anabledd corfforol difrifol neu ddwys
- Anabledd synhwyrdd sylweddol neu ddwys
- Cyflyrau cynyddol ac anghenion meddygol cymhleth
- Salwch sy'n cyfyngu ar fywyd
- Epilepsi sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a datblygiad y plentyn
- Oedi difrifol o ran datblygiad a/neu ymddygiad heriol difrifol sy'n deillio o anabledd
- Lefel o awtistiaeth sy'n effeithio'n ddifrifol ar allu'r plentyn i weithredu o ddydd i ddydd
- Bydd plant sydd â mwy nag un anhawster cymedrol hefyd yn cael eu hystyried, boed hynny'n anhawster dysgu a/neu gyfathrebu, anhawster clyw neu olwg, anhawster o ran defnyddio'r dwylo a symudedd, neu anhawster o ran gofal personol.

## Meini prawf

Bydd gan blentyn anabl hawl i wasanaeth os yw'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol

- Rhaid ei fod wedi cael diagnosis ffurfiol (Os nad yw wedi cael diagnosis ffurfiol eto, oherwydd amseroedd aros estynedig, gall y Tîm Plant Anabl dderbyn atgyfeiriadau lle mae tystiolaeth gadarn gan sawl asiantaeth bod yr anabledd yn barhaol ac yn sylweddol. Mae hyn yn cynnwys cadarnhad bod y plentyn ar lwybr diagnostig a bod ei anghenion yn cael effaith sylweddol ar ei allu i weithredu o ddydd i ddydd)
- Mae tystiolaeth glir fod gan y plentyn anabledd dysgu sylweddol, ynghyd â llai o allu i weithredu, ac effaith ar fywyd dyddiol. Mae asesiadau proffesiynol gan sawl asiantaeth yn cefnogi hyn. Nid oes angen asesiad gwybyddol (IQ) ffurfiol os oes tystiolaeth bendant bod ganddo'r angen/anghenion
- Mae eisoes wedi cael Asesiad Gwybyddol, a oedd yn nodi anabledd dysgu dwys, difrifol neu gymedrol (h.y. IQ dan 70 ynghyd â llai o allu swyddogaethol)
- Mae'n mynd i ysgol arbennig (ee Crownbridge)
- Mae gan y plentyn Gynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer anawsterau dysgu difrifol (naill ai CDU gan yr ysgol neu CDU gan Awdurdod Lleol) ac mae'n mynd i fath arall o ysgol.
- Mae'n mynd i ysgol sy'n darparu ar gyfer anhawster dysgu cymedrol neu ysgol neu goleg prif ffrwd ond mae ganddo fwy nag un anabledd cyfathrebu, synhwyrdd neu gorfforol neu anhawster meddygol sydd, gyda'i gilydd yn cael effaith sylweddol ar fywyd dyddiol. Felly, mae angen cymorth a goruchwyliaeth gyson a pharhaus trwy gydol y dydd neu mae'n dibynnu ar amgylchedd wedi'i addasu neu dechnoleg arbennig

- Mae gan y plentyn nam sylweddol ar y golwg neu'r clyw neu'r ddau.

## Cyswllt â'r Therapydd Galwedigaethol:

Bydd cyswllt â Therapydd Galwedigaethol os oes:

- Un neu fwy o'r anghenion cymhleth a rhestrir gan y plentyn/person ifanc.
- Os yw teulu'n bwriadu symud cartref a bod ganddynt blentyn ag anghenion cymhleth bydd angen asesiad gan Therapydd Galwedigaethol.
- Os oes angen ymyrraeth tymor byr ar blentyn, fel offer ar ôl llawdriniaeth/ cael ei rhyddhau o'r ysbyty. Mae angen i'r anabledd neu'r cyfyngiad fod yn 'barhaol ac yn sylweddol', felly'n eithrio achos lle gallai rhywun elwa ar fenthyg offer yn ystod cyfnod o adfer ar ôl llawdriniaeth.
- Os oes gan blentyn anabledd corfforol/anabledd dysgu sylweddol/ASA sylweddol sy'n galw am asesiad am offer/addasiad i eiddo/neu ail-gartrefu
- Os yw plentyn yn cael ei godi gan declyn codi neu os oes angen asesiad risg Codi a Chario.

## Ein manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r:

Tîm Plant Anabl  
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Y Ganolfan Ddinesig  
Glantorvaen Road  
Pont-y-pŵl  
NP4 6YB

Ffôn: 01495 762200

E-bost: [CS.Contact@torfaen.gov.uk](mailto:CS.Contact@torfaen.gov.uk)

## Nid yw'r canlynol wedi'u cynnwys yn y meini prawf cymhwysedd:

- Anhwylderau iechyd meddwl oni bai eu bod ar y cyd ag anabledd dysgu, corfforol neu gyfathrebu sylfaenol
  - Problemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol nad ydynt yn gysylltiedig ag anabledd
  - Diagnosis o ADHD neu ADD oni bai ei fod ar y cyd ag anabledd dysgu, anabledd corfforol neu anabledd sy'n ymwneud â chyfathrebu, a hynny'n sylweddol a pharhaol
- Mynychu ysgol arbennig yn bennaf am resymau anghenion cymdeithasol, emosiynol, iechyd meddwl neu ymddygiadol. Nid yw absenoldeb anabledd cymwys fel y nodir uchod, ynddo'i hun yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Tîm Plant Anabl.

Penderfynir ar gymhwysedd ar sail y wybodaeth a ddaw i law gan rheini/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd ac addysg ac arsylwadau ac asesiadau gan y Tîm Plant Anabl.

**Supportive, fair, effective...**

TORFAEN  
COUNTY  
BOROUGH



BWRDEISTREF  
SIROL  
TORFAEN